**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth; Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Cheryl Evans, Swyddog Derbyn Ysgolion a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.00pm – 4.20pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais a Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyncoch ac Ysgol Penllwyn am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu Buddiannau Personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Dogfen Gwybodaeth i Rieni**
   Eglurodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod fersiwn 2024-25 ar gael ar-lein. Byddai fersiwn 2025-26 yn cael ei chyhoeddi ar-lein ym mis Ionawr, er mwyn sicrhau ei bod ar gael 2 dymor cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

6. **Polisi Derbyn 2025-2026**
   Dywedodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod y Polisi Derbyn ar gyfer 2025-2026 wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i fod ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd yr ymgynghoriad ar y Polisi Derbyn ar gyfer 2026-2027 yn agor ym mis Ionawr 2025 ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethu. Roedd dau newid i bolisi 2026-2027, gyda'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer disgyblion oed cynradd ar draws Cymru wedi newid o 31 Ionawr i 15 Ionawr ac roedd y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau ysgolion uwchradd wedi newid o ddiwedd mis Rhagfyr i ddiwedd mis Hydref. Gall y newid i ddyddiadau newid yr adeg fydd ysgolion uwchradd yn cynnal nosweithiau

agored. Byddai rhieni'n cael gwybod am y newid ac yn cael eu hannog i wneud cais am ysgolion yn gynharach yn y flwyddyn.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

7. **Niferoedd Blwyddyn 7 - Medi 2024**

Eglurodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod data ar gyfer Medi 2024 wedi'i ddosbarthu er gwybodaeth. Roedd derbyniadau ar agor ar gyfer mis Medi 2025, a hyd yma, derbyniwyd dros 450 o geisiadau, gyda thua 150 o geisiadau yn disgwyl penderfyniad. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 20 Rhagfyr 2024.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

8. **Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2024 & 2025**

Dywedodd y Swyddog Derbyn Ysgol nad oedd llawer o broblemau wedi bod o ran derbyn disgyblion oed derbyn gan nad oedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi cyrraedd eu nifer derbyn. Roedd gan Ysgol Gynradd Aberaeron 3 disgybl yn fwy na'r nifer derbyn yn dilyn apeliadau, tra bod Ysgol Gynradd Penparc ac Ysgol Henry Richard wedi derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn gan fod llai o ddisgyblion yn y blynyddoedd ysgol hŷn.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Bryan Davies, adroddwyd bod gan Ysgol Dyffryn Aeron, sydd i fod i agor ym mis Ionawr 2025, gapasiti o 210. Ar hyn o bryd, mae 177 o ddisgyblion wedi cael eu derbyn i’r ysgol ac er gwaethaf y pryderon a godwyd ynghylch disgyblion o’r ardal ehangach yn gwneud cais ac y byddai hyn yn achosi problemau o ran derbyn, nid yw hyn wedi digwydd eto. Roedd dau ddosbarth mawr yn yr hanner isaf o’r adran gynradd, ond gyda gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau yng Ngheredigion, byddai hyn yn cydbwyso gobeithio.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes y byddai rhagor o ddisgyblion yn ymuno a’r uned ADY yn Ysgol Dyffryn Aeron yn y pen draw, unwaith bydd y disgyblion o’r 3 ysgol sy’n cau wedi setlo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol am eu gwaith diweddar y tu allan i Ysgol Dyffryn Aeron. Ychwanegodd ei fod yn edrych ymlaen at weld yr ysgol yn agor yn y flwyddyn newydd.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

9. **Apeliadau Derbyn Ganol Flwyddyn 2024-2025**

Dywedodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod dwy apêl wedi’u derbyn hyd yma. O'r ddwy apêl, roedd yr Awdurdod Lleol wedi colli un, gyda'r plentyn yn derbyn lle yn Ysgol Gynradd Aberaeron. Enillodd yr Awdurdod Lleol yr apêl arall, gyda'r plentyn yn derbyn lle mewn ysgol gyfagos nes i Ysgol Dyffryn Aeron agor ym mis Ionawr 2025.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

10. **Unrhyw fater arall**
    Dim.

11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
    Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.